YR ATODLEN

Erthygl 2

Yr ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r cyfan o Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac eithrio'r canlynol—

(a) y darn cyfan o'r A4060 o'i chyffordd â chylchfan Abercannaid ar yr A470 i'w chyffordd â chylchfan Dowlais ar yr A465, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol cylchfan Pentrebach, cylchfan Parc Busnes Triangle a chylchfan Mountain Hare;

(b) y darn hwnnw o'r A470 o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 320 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Abercynon ar yr A470 i'r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 895 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Cefn Coed, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol cylchfan Abercannaid, cylchfan Rhyd-y-car a chylchfan Heol Abertawe;

(c) y darn hwnnw o'r A470 o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 351 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag Upper High Street Cefn Coed ar yr A4054 i'r ffin â Sir Powys wrth Bont Llysiog; ac

(ch) y darn hwnnw o'r A465 o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth bwynt oddeutu 550 o fetrau i'r dwyrain o gylchfan Dowlais Top ar yr A465 i'r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 13 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Ffordd Merthyr ar y B4276, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael a cherbytffordd gylchredol cylchfan Dowlais ar yr A465/A4060, cylchfan Dowlais Top ar yr A465 a chylchfan Cefn Coed.